

SOCIAL SERVICES

Legal Proceedings and Your Child

Information for Parents

Introduction

The Children and Young People Services Division of the Vale of Glamorgan Council have prepared this leaflet. Part of our responsibility is to provide ways to secure the safety and wellbeing of children in need and their families.

If you are reading this leaflet, it probably means that one of our Social Workers has talked to you about applying to a Court for an Order on your child.

This information is for parents and is intended to give you a summary of what happens when we go to Court about your children. **It is not a full guide and we advise that you see a solicitor in order to get independent legal advice as soon as possible if you find yourself in this situation. This advice will be free of charge, as you can apply for a public funding certificate.**

If an application is made to the court by the Local Authority the Court will go ahead to make a decision regarding your child's future, and in reaching that decision will decide what is in the best interests of your child. You will be party to the application and have the right to attend court, give evidence and be represented by a solicitor.

If you delay in seeking legal advice on your rights as a parent, this may affect your position.

Any questions about your child and what is happening will be answered by the Social Worker as fully as possible.

Families and the Law

The law affects families in different ways. When parents separate or disagree, a Court can make Orders which decide things to do with where children live or who they see. Usually, Local Authority Social Services do not get involved with these matters.

If anyone thinks that a child has been harmed or is at risk of being harmed, Social Services have to make enquiries about this. Abuse can be Physical, Emotional, Psychological, Financial, Sexual, or through Neglect. Abuse may be an isolated event or series of incidents. It may take place in the child's own home, or elsewhere. Sometimes the police are involved.

This may result in a Child Protection Conference being called at which people who know the child, including the parents, and other professionals talk about the problem and how the child can be kept safe in the future. Other professionals could be, for example, the police, health visitor, or teacher.

There are three leaflets explaining the Child Protection process:

1. Child Protection Enquiries
2. Attending a Child Protection Conference
3. Keeping Your Child Safe

Copies can be obtained from your social worker or from the Innovation and Information Team whose address is in the middle of this leaflet.

Sometimes, in order to keep a child safe whilst further enquiries are made, we ask a Court to make an Order.

Preparing for Court

Parents will be sent documents from the Court detailing what they should do and giving notice of the date and time of the first Court Hearing. **Parents should have their point of view put to the Court by a solicitor. It is therefore advisable for parents to seek independent legal advice as soon as possible. This will be free of charge.**

Cases involving children and their families are heard in special Family Proceedings Courts, in private. The Magistrates and Judges are specially trained to hear these cases and the hearings are confidential.

The Court and your Child

The Court will appoint a Guardian for your child.

The Law states that children must have their own solicitor, the Children's Guardian is responsible for appointing a solicitor on behalf of your child.

The Children's Guardian is a qualified social worker who is appointed by the Court and is independent of social services, the Court and everyone else involved in the case. Their role is to advise the Court what work needs to be done before it makes its decisions and to write a report stating what in their opinion would be best for the child. Their report must include the wishes and feelings of the child.

To do this, Children's Guardians spend time getting to know your child and members of their family. They talk to other people who know your family, such as relatives, teachers, social workers and health visitors. They attend meetings on behalf of your child, check records and read reports and statements. They may also recommend to the Court that other professionals are asked to help, such as a paediatrician or a psychologist.

Assessments

The Court will consider whether or not it needs any specialist assessments.

Types of Orders

There are several types of orders which can be made by the Court.

The order applied for and/or made by the Court will be based on individual circumstances and your solicitor will advise you what will be relevant in your case.

If the Local Authority is applying for an order, the three main types of order which we apply for are:

1. A Care Order
2. A Supervision Order
3. An Emergency Protection Order

There are other types of orders which the Local Authority can apply for. However, those are not covered in this leaflet.

Application for Care Orders and Supervision Orders

Before a Court can make a Care Order or a Supervision Order, it must be satisfied that your child is suffering or is at risk of suffering some serious harm (which can include physical, emotional, psychological harm or neglect) and that harm, or risk of harm, is as a result of your care or lack of care of your child.

1. Care Order

This order allows the Local Authority to share parental responsibility with you as a parent. It allows us to have the power to decide the extent to which you may meet your parental responsibility to your child. In general terms parental responsibility means the power to make important decisions in relation to your child, for example decisions about where your child is to live, whether your child can receive medical treatment, what religion they follow and which school they attend.

Under a Care Order the Local Authority is primarily responsible for making decisions with regard to your child, including where the child should live. Sometimes the child is placed in foster care or a residential home, however this is not always the case. We can place your child with your, or other, family members or any other appropriate person. We will continue to try and work in partnership with you for the benefit of your child when a Care Order is in force.

2. Supervision Order

A Supervision Order means that we will visit regularly and that you will have to work with us to sort out the problems which you are having. It does not allow us to take your child away.

When you are notified that the Local Authority has made an application for an order and the matter is listed for a first hearing, the Court will not be in a position to make a final order. The Court will set a timetable for dealing with the application and decide what assessments and information it needs before making a final order.

Until the date that the final hearing is listed the Court can make **interim orders**. These are short term measures to cover the period until the Court can finally deal with the case regarding your child. This is initially for up to 8 weeks and thereafter can be renewed by the Court every 28 days. This allows us to share parental responsibility with you, the parents, and use the same powers during the time leading to the final hearing as we would have under a care order.

The Court can also make an **Interim Supervision Order**.

When considering whether to make a Care Order, Supervision Order or Interim Care or Supervision Orders, the Court can consider making a number of other orders including:

(a) **A Residence Order** - which is an order deciding with whom a child should live.

(b) **A Contact Order** - which is an order stating how often an individual, including the parents, should see the child. When the Local Authority has a Care Order or Interim Care Order, we must make arrangements for contact if the Court does not make an order in relation to contact. This will not happen if we have permission of the Court not to make those arrangements.

3. Emergency Protection Order

This is an order for use in a genuine emergency. It will enable your child to be removed from where he/she is, or to be kept where he/she is, if this is what is necessary to provide immediate short term protection. An Emergency Protection Order can last for up to 8 days, although in some circumstances it can be extended for a further 7 days. In some circumstances the Local Authority can apply for this order without notifying you that we are making the application. If we do this you may be able to apply to discharge the order and if you are considering this, you should seek immediate legal advice.

Legal Representation

As set out in this document if the Local Authority applies for a Care Order or Supervision Order or Emergency Protection Order, you have the right to be legally represented and that legal representation is available free of charge. There are solicitors who specialise in the law relating to children. They are members of a specialist panel set up by the Law

Society. If you are going to get legal advice, a list of solicitors who belong to this panel is available either from ourselves, the local magistrates court in Barry or from the Legal Services Commission. While we hold a list of the solicitors who are on the panel, we emphasise that they are completely independent of Social Services.

Contact Details

If you require any further information on the above, ask your social worker or contact:

Children and Young People Services,
Dock Office
Subway Road
Barry, CF63 4RT

Telephone: 01446 725202

This information may also be provided, by request, in other languages, in larger print, tape or in simplified version. Please contact the Innovation and Information Team on Tel: 01446 704814 to make arrangements.

CS/38/FEB15

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Achosion Cyfreithiol A'ch Plentyn

Gwybodaeth i Rieni

Cyflwyniad

Mae Isadran Plant a Phobl Ifanc Cyngor Bro Morgannwg wedi paratoi'r daflen hon. Rhan o'n cyfrifoldeb yw darparu ffyrdd o sicrhau diogelwch a lles plant mewn angen a'u teuluoedd.

Os ydych yn darllen y daflen hon, mae'n debygol bod un o'n Gweithwyr Cymdeithasol wedi siarad â chi ynghylch gwneud cais i Lys am Orchymyn ar gyfer eich plentyn.

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer rhieni ac mae'n ceisio rhoi crynodeb i chi o'r hyn sy'n digwydd pan fyddwn yn mynd i'r Llys am resymau'n ymwneud â'ch plant. **Nid yw'n ganllaw cyflawn ac fe'ch cynghorwn i weld cyfreithiwr er mwyn cael cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gynted ag y bo modd os byddwch mewn sefyllfa o'r fath. Bydd y cyngor hwn yn rhad ac am ddim, oherwydd gallwch wneud cais am dystysgrif arian cyhoeddus.**

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud cais i'r Llys, bydd y Llys yn mynd ati i wneud penderfyniad ynghylch dyfodol eich plentyn ac wrth wneud y penderfyniad hwnnw, bydd yn penderfynu ar yr hyn sydd orau er lles eich plentyn. Byddwch yn rhan o'r cais a bydd gennych yr hawl i fynychu'r llys, rhoi tystiolaeth a chael eich cynrychioli gan gyfreithiwr.

Os byddwch yn oedi cyn ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch eich hawliau fel rhiant, gallai hyn effeithio ar eich sefyllfa

Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich plentyn a'r hyn sy'n digwydd, mewn ffordd mor llawn ag y bo modd.

Teuluoedd a'r Gyfraith

Mae'r gyfraith yn effeithio ar deuluoedd mewn gwahanol ffyrdd. Pan fydd rhieni yn gwahanu neu'n anghytuno, gall Llys wneud Gorchmynion sy'n penderfynu ar yr hyn i'w wneud o ran ymhle y bydd plant yn byw neu pwy fyddant yn ei weld. Fel arfer, ni fydd

Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn ymyrryd yn y materion hyn.

Os bydd unrhyw un o'r farn bod plentyn wedi cael niwed neu ei fod mewn perygl o gael niwed, rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol wneud ymholiadau ynghylch hyn. Gall cam-drin fod yn Gorfforol, yn Emosiynol, yn Seicolegol, yn Ariannol, yn Rhywiol neu trwy Esgeulustod. Gall cam-drin fod yn un digwyddiad neu'n gyfres o ddigwyddiadau. Gall ddigwydd yng nghartref y plentyn neu mewn rhywle arall.

Weithiau, bydd yr heddlu yn ymwneud â'r sefyllfa.

Gallai hyn arwain at drefnu Cynhadledd Amddiffyn Plant lle y bydd pobl sy'n adnabod y plentyn, gan gynnwys y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, yn trafod y broblem a'r ffordd y gellir cadw'r plentyn yn ddiogel yn y dyfodol. Gallai gweithwyr proffesiynol eraill, er enghraifft, fod yn heddweision, yn ymwelwyr iechyd neu'n athrawon.

Ceir tair taflen sy'n esbonio'r broses Amddiffyn Plant:

1. Ymholiadau Amddiffyn Plant
2. Mynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant
3. Cadw eich Plentyn yn Ddiogel

Gellir cael copïau gan eich gweithiwr cymdeithasol neu'r Tîm Polisi a Gwybodaeth, y nodwyd ei gyfeiriad yng nghanol y daflen hon. Weithiau, er mwyn cadw plentyn yn ddiogel wrth wneud ymholiadau pellach, byddwn yn gofyn i Lys wneud Gorchymyn.

Paratoi ar gyfer y Llys

Bydd y Llys yn anfon dogfennau at rieni sy'n nodi'r hyn y dylent ei wneud ac sy'n eu hysbysu am ddyddiad ac amser y Gwrandawriad Llys cyntaf. **Dylai cyfreithiwr gyfleu safbwynt y rhieni i'r Llys. Felly, cynghorir rhieni i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gynted ag y bo modd. Bydd hwn yn rhad ac am ddim.**

Cynhelir achosion sy'n cynnwys plant a'u teuluoedd mewn Llysoedd Achosion Teuluol arbennig, yn breifat. Mae'r Ynadon a'r Barnwyr wedi cael hyfforddiant arbennig i wrando ar yr achosion hyn ac mae'r gwrandawriadau yn gyfrinachol.

Y Llys a'ch Plentyn

Bydd y Llys yn penodi Gwarcheidwad ar gyfer eich plentyn.

Mae'r Gyfraith yn nodi bod yn rhaid i blant gael eu cyfreithiwr eu hunain, mae Gwarcheidwad y Plentyn yn gyfrifol am benodi cyfreithiwr ar ran eich plentyn.

Mae'r Gwarcheidwad Plant yn weithiwr cymdeithasol cymwys a benodir gan y Llys ac mae'n annibynnol ar y gwasanaethau cymdeithasol, y Llys ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r achos. Ei rôl yw cynghori'r Llys ynghylch y gwaith y mae angen ei wneud cyn iddo wneud ei benderfyniadau ac ysgrifennu adroddiad sy'n nodi'r hyn fyddai orau i'r plentyn yn eu barn nhw. Rhaid i'w hadroddiad gynnwys dymuniadau a theimladau'r plentyn.

Er mwyn gwneud hyn, bydd Gwarcheidwaid Plant yn treulio amser yn dod i adnabod eich plentyn ac aelodau eu teulu. Byddant yn siarad ag eraill sy'n adnabod eich teulu fel perthnasau, athrawon, gweithwyr cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd. Byddant yn

mynychu cyfarfodydd ar ran eich plentyn, yn archwilio cofnodion ac yn darllen adroddiadau a datganiadau. Yn ogystal, gallant argymhell i'r Llys bod gweithwyr proffesiynol eraill yn cael cais i helpu, fel paediatregydd neu seicolegydd.

Asesiadau

Bydd y Llys yn ystyried a oes angen unrhyw asesiadau arbenigol arno neu beidio.

Mathau o Orchmynion

Ceir nifer o wahanol fathau o orchmynion y gall y Llys eu gwneud.

Bydd y gorchymyn y gwneir cais amdano a/neu a wneir gan y Llys yn cael ei seilio ar amgylchiadau unigol a bydd eich cyfreithiwr yn eich hysbysu ynghylch yr hyn a fydd yn berthnasol yn eich achos chi.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud cais am orchymyn, mae'r tri phrif fath o orchymyn y byddwn yn gwneud cais amdanynt, fel a ganlyn:

1. Gorchymyn Gofal
2. Gorchymyn Goruchwyllo
3. Gorchymyn Diogelu Brys

Ceir mathau eraill o orchmynion y mae'r Awdurdod Lleol yn gallu gwneud cais amdanynt. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu trafod yn y daflen hon.

Gwneud cais am Orchmynion Gofal a Gorchymynion Goruchwyllo

Cyn y bydd Llys yn gallu gwneud Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwyllo, rhaid iddo fod yn fodlon bod eich plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef rhyw fath o niwed difrifol (sy'n gallu cynnwys niwed corfforol, emosiynol, seicolegol neu esgeulustod) a bod y niwed, neu'r perygl o niwed, o ganlyniad i'ch gofal neu'ch diffyg gofal chi o'ch plentyn.

1. Gorchymyn Gofal

Mae'r gorchymyn hwn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i rannu cyfrifoldeb rhieni gyda chi fel rhiant. Mae'n ein galluogi ni i gael y pwer i benderfynu ar y graddau y gallwch fodloni eich cyfrifoldeb rhieni tuag at eich plentyn. Yn gyffredinol, mae cyfrifoldeb rhieni yn golygu'r pwer i wneud penderfyniadau pwysig ynghylch eich plentyn, er enghraifft penderfyniadau am ble fydd eich plentyn yn byw, a yw'ch plentyn yn gallu cael triniaeth feddygol, pa grefydd maent yn ei dilyn a pha ysgol maent yn ei mynychu.

Dan Orchymyn Gofal, yr Awdurdod Lleol sy'n bennaf gyfrifol am wneud penderfyniadau

ynghylch eich plentyn, gan gynnwys ble ddylai'r plentyn fyw. Weithiau, trefnir gofal maeth i'r plentyn neu ofal mewn cartref preswyl, fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd bob amser. Gallwn leoli eich plentyn gyda chi neu unrhyw aelodau eraill eich teulu neu unrhyw unigolyn priodol arall. Byddwn yn parhau i geisio gweithio mewn partneriaeth gyda chi er lles eich plentyn pan fydd Gorchymyn Gofal mewn grym.

2. Gorchymyn Goruchwylio

Mae Gorchymyn Goruchwylio yn golygu y byddwn yn ymweld â chi'n rheolaidd a bydd yn rhaid i chi weithio gyda ni i ddatrys eich problemau. Nid yw'n ein galluogi i gymryd eich plentyn oddi wrthyfch.

Pan fyddwch yn cael eich hysbysu bod yr Awdurdod Lleol wedi gwneud cais am orchymyn a phan fo'r mater yn cael ei restru am wrandawriad cyntaf, ni fydd y Llys mewn sefyllfa i wneud gorchymyn terfynol. Bydd y Llys yn pennu amserlen er mwyn delio â'r cais ac yn penderfynu ar yr asesiadau a'r wybodaeth y mae eu hangen arno cyn gwneud gorchymyn terfynol.

Nes bydd dyddiad y gwrandawriad terfynol yn cael ei restru, gall y Llys wneud **gorchymynion interim**. Mae'r rhain yn fesurau tymor byr ar gyfer y cyfnod nes bydd y Llys yn gallu delio â'r achos ynghylch eich plentyn. Mae'r cyfnod hwn yn gyfnod o hyd at 8 wythnos i ddechrau ac ar ôl hynny, gall y Llys ei adnewyddu bob 28 diwrnod. Mae hyn yn ein galluogi i rannu cyfrifoldeb rhieni gyda chi, y rhieni, a defnyddio'r un pwerau yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y gwrandawriad terfynol, ag y byddai gennym dan orchymyn gofal.

Gall y Llys wneud **Gorchymyn Goruchwylio Interim** hefyd.

Wrth ystyried a ddylid gwneud Gorchymyn Gofal, Gorchymyn Goruchwylio neu Orchymynion Goruchwylio neu Ofal Interim, gall y Llys ystyried gwneud nifer o orchymynion eraill gan gynnwys:

(a) **Gorchymyn Preswyllo** - sy'n orchymyn sy'n penderfynu gyda phwy ddylai plentyn fyw.

(b) **Gorchymyn Cyswllt** - sy'n orchymyn sy'n nodi pa mor aml ddylai unigolyn, gan gynnwys y rhieni, weld y plentyn. Pan fydd gan yr Awdurdod Lleol Orchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Interim, rhaid i ni wneud trefniadau cyswllt os na fydd y Llys yn gwneud gorchymyn ynghylch cyswllt. Ni fydd hyn yn digwydd os na fyddwn yn cael caniatâd y Llys i wneud y trefniadau hynny.

3. Gorchymyn Diogelu Brys

Mae hwn yn orchymyn i'w ddefnyddio mewn argyfwng go iawn. Bydd yn galluogi symud eich plentyn o'i leoliad/lleoliad, neu fynnu ei fod/bod yn aros ble y mae, os mai hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau eu diogelwch yn y tymor byr ar unwaith. Gall Gorchymyn Diogelu Brys bara am hyd at 8 diwrnod, er mewn rhai amgylchiadau, gellir ei ymestyn am

7 diwrnod pellach. Mewn rhai amgylchiadau, gall yr Awdurdod Lleol wneud cais am y gorchymyn hwn heb eich hysbysu chi ein bod yn gwneud y cais. Os byddwn yn gwneud hyn, efallai y byddwch yn gallu gwneud cais i ollwng y gorchymyn ac os ydych yn ystyried gwneud hyn, dylech geisio cyngor cyfreithiol yn syth.

Cynrychiolaeth Gyfreithiol

Fel y nodwyd yn y ddogfen hon, os bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud cais am Orchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwylio neu Orchymyn Diogelu Brys, mae gennych yr hawl i gael eich cynrychioli'n gyfreithiol ac mae'r gynrychiolaeth gyfreithiol honno ar gael yn rhad ac am ddim. Ceir cyfreithwyr sy'n arbenigo yn y gyfraith sy'n ymwneud â phlant. Maent yn aelodau panel arbenigol a sefydlwyd gan Gymdeithas y Gyfraith. Os ydych yn mynd i gael cyngor cyfreithiol, mae rhestr o'r cyfreithwyr sy'n aelodau o'r panel hwn ar gael gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Er ein bod yn cadw rhestr o'r cyfreithwyr sydd ar y panel, rydym yn pwysleisio eu bod yn hollol annibynnol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cysylltiadau

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am yr uchod, dylech holi eich gweithiwr cymdeithasol neu gysylltu â:

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
Swyddfa'r Doc
Heol yr Isfford
Y Barri CF63 4RT

Rhif ffôn: 01446 725202

Darperir y wybodaeth hon, pan wneir cais, mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, ar dâp, neu mewn fersiwn symledig neu un sy'n defnyddio lluniau. Cysylltwch â'r Tîm Polisi a Gwybodaeth os gwelwch chi'n dda ar 01446 704814 i wneud trefniadau.

CS/38/FEB15